**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Tachwedd 2019 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Miss S. Roberts, Ms V. Roberts, R. Turner a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Hefyd yn bresennol
Y Cynghorydd B. Jones (sylwedydd)
Y Cynghorydd T. Thomas (sylwedydd)

## 28. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. L. McAlpine, ac A.J. Rutherford.

## 29. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle’n briodol, bod gofyn i’r holl geisiadau a restrir isod sy’n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy’n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**[Datganodd y Cynghorydd Miss C.L. ei buddiant personol a rhagfarnus yng Nghais rhif 45/2019/0909 a gadawodd y siambr yn ystod y drafod a’r pleidleisio ar y mater]**

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 29.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn Larkmount Road, y Rhyl<br><br>**WARD:** Tynewydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: B. Blakeley<br>B. Jones<br>Miss C.L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0909<br><br>**DISGRIFIAD:** Datblygu 0.04ha o dir i ddibenion preswyl (cais amlinell gyda’r holl faterion yn neilltuedig)<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. Zak Twist, 17 Westfield Road, y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD**: Gwrthwynebiad* |

| | |
|---|---|
| | - *Byddai'r datblygiad yn arwain at golli preifatrwydd i'r eiddo cyffiniol ar Larkmount Road*<br>- *Ystyrir bod defnyddio trac heb ei fabwysiadu fel y fynedfa i ac o'r briffordd yn annerbyniol*<br>- *Pryderon ynglŷn â'r effaith ar y system ddraenio* |
| 29.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 16 Clwyd Street, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0872<br><br>**DISGRIFIAD:** Trosi cyn swyddfeydd yn 3 fflat ollgynhwysol<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. S. Solomon o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Gwrthwynebu oherwydd*<br><br>- Diffyg dihangfa dân ar gyfer y fflatiau llawr cyntaf ac ail lawr<br>- Diffyg mynediad uniongyrchol i'r iard gefn/lle storio biniau ar gyfer unrhyw un lo'r fflatiau aarfaethedig<br>- pryder bod y cais blaenorol ar gyfer yr eiddo wedi ei wrthod oherwydd pryderon perygl llifogydd nad yw'n ymddangos eu bod wedi eu trin gan y cais cyfredol. |

**30. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………………........